

**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2011 Rhif 11**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD  
(PENNSYLVANIA, LLANEDEYRN,  
CAERDYDD) 2011**

*Gwnaed*

*17 Chwefror 2011*

*Yn dod i rym*

*25 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref (1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1990”), a phob pŵer galluogi arall(2).

1. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw’r person sy’n gwneud y datblygiad y rhoddwyd y caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod ar ei gyfer;

ystyr “y plan a adnewwyd” (“*the deposited plan*”) yw’r plan o’r enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Pennsylvania, Llanedeyrn, Caerdydd) 2011” sydd gyda’r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o’r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau’r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog du a gwyn ar y plan a adnewwyd, gan eu bod wedi’u bodloni ei bod yn angenrheidiol cau’r briffordd i alluogi’r gwaith datblygu i gael ei wneud fel a ddisgrifir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 10 Mawrth 2010 dan gyfeirnod 10/4/E.

3. Creir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir gan ddotwaith ar y plan a adnewwyd, a’r rhannau o briffordd y gwneir gwelliannau iddynt, a ddisgrifir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir gyda chroeslinellau ar y plan a adnewwyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(3), yn briffyrdd sydd i’w cynnal ar

draul y pwrs cyhoeddus a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar eu cyfer.

4. Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn hyd oni fydd:-

- (a) y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos ym mha fodd y bwriedir cau'r darnau o briffordd sydd i'w cau;
- (b) y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;
- (c) y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi dechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r rhannau o briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac
- (ch) y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig i'r datblygwr bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi'u bodloni.

5. Os, yn union cyn cau'r rhannau o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, bydd unrhyw gyfarpar ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus o dan y briffordd, ynnddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, (yn ddarostyngedig i adran 261(4) Deddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau cyn pen y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y cyhoeddir gyntaf yr hysbysiad yn nodi ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a'i enw fydd Gorchymyn Cau Priffyrdd Pennsylvania, Llanedeyrn, Caerdydd 2011.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Chwefror 2011

## **J COLLINS**

Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflenwi Seilwaith  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1990 p.8.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru..

(3) 1980 p.66

## **YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### **ATODLEN 1**

#### **Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan ar siâp 'L' o briffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 21.2 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 12.5 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 66 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S1' ar y plan a adnewwyd.

Rhan betryal ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 14.3 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 4.8 metr a'i harwynebedd cyfan yn 63 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S2' ar y plan a adnewwyd.

Rhan betryal ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 4.6 metr, ei lled ar y mwyaf yn 1.9 metr a'i harwynebedd cyfan yn 9 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S3' ar y plan a adnewwyd.

Rhan betryal ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 4.2 metr, ei lled ar y mwyaf yn 2.7 metr a'i harwynebedd cyfan yn 10 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S4' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 10.3 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 1.5 metr

a'i harwynebedd cyfan yn 10 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S5' ar y plan a adnewwyd.

Rhan betryal ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 1.3 metr, ei lled ar y mwyaf yn 0.5 metr a'i harwynebedd cyfan yn 0.7 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S6' ar y plan a adnewwyd.

## **ATODLEN 2**

### **Disgrifiad o'r rhannau o briffordd newydd sydd i'w darparu**

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 17.2 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 12.4 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 83 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N1' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 17.7 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 7.1 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 38 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N2' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 33 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 25 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 180 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N3' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 17.7 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 12.6 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 109 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N4' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 9.6 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 5.4 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 47.5 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N5' ar y plan a adnewwyd.

Rhan betryal ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 17.8 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 2.9 metr a'i harwynebedd cyfan yn 48 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N6' ar y plan a adnewwyd.

Rhan sgwâr ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 1 metr, ei lled ar y mwyaf yn 1 metr a'i harwynebedd cyfan yn 1 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N7' ar y plan a adnewwyd.

### **ATODLEN 3**

#### **Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella**

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 56 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 20 metr a'i harwynebedd cyfan yn 723 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'A1' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 41 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 14 metr a'i harwynebedd cyfan yn 423 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'A2' ar y plan a adnewwyd.

### **ATODLEN 4**

#### **Y Datblygiad Arfaethedig**

Datblygiad o 8 o anheddau, 22 man parcio newydd i breswylwyr presennol a gwaith cysylltiedig, wrth ymyl ac yn gyffiniol â'r cyn eiddo yn 310 Pennsylvania, Llanedeyrn, Caerdydd.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PENNSYLVANIA, LLANEDEYRN, CAERDYDD 2011**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd fel a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhannau o briffordd fel a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn

Dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r briffordd. Bydd effaith y Gorchymyn yn peidio os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff y caniatâd hwnnw ei ddirymu.

Yn ystod y 6 wythnos o 25 Chwefror 2011, gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewydd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Caerdydd, Rheoli Datblygu, Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3ND neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os bydd unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. y rhagfarnwyd yn sylweddol yn erbyn ei fuddiannau gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un neu rai o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw o fewn chwe wythnos o 25 Chwefror 2011 wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu i ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-Ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Drafft', 'Trafnidiaeth Cymru', 'Gorchmynion Cau TCPA').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru,  
Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3,  
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**

Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3  
Llywodraeth Cynulliad Cymru

## **YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### **ATODLEN 1**

#### **Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan ar siâp 'L' o briffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 21.2 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 12.5 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 66 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S1' ar y plan a adneuwyd.

Rhan betryal ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 14.3 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 4.8 metr a'i harwynebedd cyfan yn 63 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S2' ar y plan a adneuwyd.

Rhan betryal ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 4.6 metr, ei lled ar y mwyaf yn 1.9 metr a'i harwynebedd cyfan yn 5 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S3' ar y plan a adneuwyd.

Rhan betryal ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 4.2 metr, ei lled ar y mwyaf yn 2.7 metr a'i harwynebedd cyfan yn 10 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S4' ar y plan a adneuwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 10.3 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 1.5 metr a'i harwynebedd cyfan yn 10 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S5' ar y plan a adneuwyd.

Rhan betryal ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 1.3 metr, ei lled ar y mwyaf yn 0.5 metr a'i harwynebedd cyfan yn 0.7 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'S6' ar y plan a adneuwyd.

## **ATODLEN 2**

### **Disgrifiad o'r rhannau o briffordd newydd sydd i'w darparu**

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 17.2 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 12.4 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 83 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N1' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 17.7 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 7.1 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 38 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N2' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 33 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 25 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 180 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N3' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 17.7 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 12.6 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 109 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N4' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 9.6 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 5.4 o fetrau a'i harwynebedd cyfan yn 47.5 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N5' ar y plan a adnewwyd.

Rhan betryal ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 17.8 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 2.9 metr a'i harwynebedd cyfan yn 48 o fetrau sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N6' ar y plan a adnewwyd.

Rhan sgwâr ei siâp o dir yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 1 metr, ei lled ar y mwyaf yn 1 metr a'i harwynebedd cyfan yn 1 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'N7' ar y plan a adnewwyd.

## **ATODLEN 3**

### **Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w gwella**

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y mwyaf yn 56 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 20 metr a'i harwynebedd cyfan yn 723 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'A1' ar y plan a adnewwyd.

Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd ddiddosbarth yn 'Pennsylvania', Llanedeyrn, Caerdydd, a'i hyd ar y



mwyaf yn 41 o fetrau, ei lled ar y mwyaf yn 14 metr a'i harwynebedd cyfan yn 10 metr sgwâr, ac sy'n dwyn y cyfeirnod 'A2' ar y plan a adnewwyd.

**ATODLEN 4**  
**Y Datblygiad Arfaethedig**

Datblygiad o 8 o anheddau, 22 man parcio newydd i breswylwyr presennol a gwaith cysylltiedig, wrth ymyl ac yn gyffiniol â'r cyn eiddo yn 310 at 310 Pennsylvania, Llanedeyrn, Caerdydd, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 10 Mawrth 2010 dan gyfeirnod 10/4/E.